# Mân-filod

## yn eich ardal chi

www.npt.gov.uk



Buwch goch gota

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn gartref i lawer o anifeiliaid gwyllt, ac nid ein hanifeiliaid cyfoethog fel ceirw, llwynogod, moch daear ac adar yn unig. Mae hefyd yn gartref i anifeiliaid rydyn ni'n eu gweld yn llawer llai aml, er eu bod yno yn eu miliynau. Dyma'r byddinoedd o anifeiliaid **di-asgwrn-cefn**, y pryfed a'r mân-filod sydd ag ysgerbydau allanol, megis cregyn, yn hytrach nag esgyrn mewnol.


Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Neath Port Talbot County Borough
Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

ENVT0249

# Chwilod...

Ceir mwy o rywogaethau o chwilod nag unrhyw grŵp rhywogaeth arall ar y blaned. Eu prif nodweddion arwahanol yw eu **cloradenydd**, sef yr adenydd blaen mewn gwirionedd, sydd wedi'u caledu i amddiffyn yr adenydd cefn main.




***Chwilod Hela***

Mae chwilod teigr mor ffyrnig a diddorol ag unrhyw gath fawr. Os ewch i dwyni tywod Crymlyn neu'r twyni o gwmpas Port Talbot, efallai y byddwch yn ddigon lwcus i weld Chwilen Deigr y Twyni (Cicindela maritima), neu efallai ei chefnder, y Chwilen Deigr Werdd (Cicindela campestris) yn y bryniau grugog. Mae'r chwilod hela hyn yn gallu rhedeg yn gyflym yn haul y gwanwyn a dechrau'r haf, ac yn ddigon parod i hedfan hefyd. Mae eu hepil, sef y larfâu, yn byw yn nyfnder y twyni, lle maent yn aros am bryfetach, yn neidio arnynt ac yn eu llusgo'n ôl i'w ffeuau i'w bwyta. Maent yn gallu dal morgrug a hyd yn oed chwilod eraill.






*Yn ogystal â'u henwau cyffredin, megis Chwilen Deigr Werdd, mae gan bob anifail a phlanhigyn enwau gwyddonol, a roddir iddynt pan gânt eu darganfod a'u disgrifio am y tro cyntaf. Mae'r enwau hyn yn cynnwys dwy elfen: enw generig yn gyntaf (e.e. Cicindela), sef yr un enw ag anifeiliaid eraill sy'n perthyn yn agos (enw teulu fel petai), ac yna enw penodol (e.e. campestris), ac mae'r ddau enw gyda'i gilydd yn rhoi enw unigryw i'r rhywogaeth unigol arbennig honno. Defnyddir yr enwau gwyddonol hyn yn rhyngwladol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch wrth siarad am anifeiliaid a phlanhigion.*

Mae helwyr ysglyfaethus a ffyrnig eraill i'w gweld hefyd. Yn y coed, yn arbennig ar hyd llwybrau, mae'n bosib y gwelwch y Chwilen Gnoi (Ocypus olens). Mae'r chwilen ryfedd yma'n perthyn i deulu o'r enw chwilod crwydro. Mae cloradenydd byrrach gan y chwilod hyn, ac mae hynny'n eu gwneud yn fwy ystwyth i ymlusgo o dan cerrig a rhwng darnau o ddail a brigau ar lawr wrth chwilio am ysglyfaeth. Darganfuwyd chwilen grwydro arall, y Chwilen Grwydro Lwyd, Aleochara fumata, yn ddiweddar yn Llandarcy yn 2004. Dyma'r tro cyntaf i'r rhywogaeth hon gael ei chofnodi yng Nghymru ac nid ydym yn gwybod llawer amdani, dim hyd yn oed a yw'n bwyta'r ffwng ger y man y daethpwyd o hyd iddi, neu gynrhon pryfed eraill.







## *Chwilod Cyfarwydd*

Hwyrach mai'r mwyaf adnabyddus a hoffus o'n holl chwilod yw'r Fuwch Goch Gota, cyfaill garddwyr, sy'n bwyta'r gleren werdd a llyslau eraill. Fe allech chi dybio nad yw'r cloradenydd coch llachar a'r smotiau duon sy'n hawdd eu gweld yn syniad da wrth geisio cuddio rhag rheibwyr megis adar, ond byddech chi'n anghywir. Mae'r Fuwch Goch Gota'n cynnwys cemegyn sy'n gas gan adar; pan fydd aderyn wedi blasu'r fuwch goch gota unwaith, dyna fydd y tro olaf!

Yn rhyfedd iawn, ceir tua 46 rhywogaeth Brydeinig frodorol o'r Fuwch Goch Gota. Yn wir, mae 47 rhywogaeth erbyn hyn ym Mhrydain, ond nid yw'r aelod newydd o'r teulu'n boblogaidd iawn. Cyrhaeddodd y Fuwch Goch Gota Fraith (Harmonia axyridis) Brydain yn haf 2004, ac mae'n ymledu'n gyflym o'r de-ddwyrain. Mae'r Fuwch Goch Gota Fraith yn fygythiad i'n rhywogaethau brodorol drwy fridio'n gynt a bwyta larfâu buchod coch cwta eraill. Nid yw'r Fuwch Goch Gota Fraith wedi cyrraedd Castell-nedd Port Talbot eto, ond fe fydd cyn bo hir, felly cadwch lygad amdani!



# Mae bywyd yn galed - os ydych chi'n fach...

Mae bywyd yn anodd i fân-filod; mae rheibwyr yn eu herlid ym mhob man. Dychmygwch deimlo'n ddiogel o dan garreg neu wedi'ch cuddio mewn deiliach ar lawr y coetir, ac yna'n sydyn rydych chi wyneb yn wyneb â rhywbeth arswydus - chwilen fel y Ddaearchwilen Ddu Laith (Pterostichus madidus) neu neidr gantroed sy'n chwilio am fwyd.







Gallwch ddod o hyd i nadredd cantroed mewn mannau o bob math, yn y ddaear neu ar y llawr. Mae ganddynt lawer o goesau (ond nid cant, fel y mae eu henw'n awgrymu mewn gwirionedd!). Mae un pâr o goesau o dan y pen wedi'u haddasu fel dannedd sy'n chwistrellu gwenwyn. Gall nadredd cantroed trofannol wenwyno pobl, ond nid yw'r rhai yn ein gwlad ni yn gwneud hynny am eu bod lawer yn llai. Serch hynny, maent yn beryglus iawn i bryfed bach.







### Nadredd cantroed Vs Nadredd miltroed

Mae'n hawdd gwahaniaethu rhwng y nadredd cantroed a nadredd miltroed, y grŵp arall o infertebratau â choesau niferus iawn, mewn sawl ffordd. Mae nadredd cantroed fel arfer yn symud llawer yn gynt, mae ganddynt gyrff fflat, pâr o goesau i bob segment o'r corff ac maent yn bwyta infertebratau eraill. Mae cyrff mwy crwn gan nadredd miltroed, dau 6 ar o goesau i bob segment ac maent yn llysfwytawyr diniwed.

# Dinasoedd Cyfrin...




Os ewch chi am dro i'r goedwig yn Sgiwen neu yng Nglyn-nedd, i ochr bryn sy'n wynebu'r de, neu wrth i chi droi carreg drosodd, neu brocio bôn coeden, fe ddowch ar draws dinasoedd. Dinasoedd morgrug. Mae morgrug y coed yn creu tomenni mawr, hyd at fetr o uchder, lle maent yn byw mewn cymunedau mawr o filoedd ar filoedd o forgrug. Mae gan forgrug eraill nythod llai, ond mae llawer ohonynt yn dal i fyw gyda'i gilydd mewn cymdeithas forgrug. Maent yn yn chwilota am fwyd yn y cyffiniau, ac yn byw ac yn magu eu hepil yn y nythod. Mae'r morgrug yn symud eu larfâu a'u pwpaod (wyau morgrug) brau i wahanol fannau yn y nyth, yn ôl a yw hi'n gynnes neu'n oer, neu'n wlyb neu'n sych. Mae gwres corff y morgrug prysur yn darparu system gwres canolog yn ychwanegol at wres yr haul, a hynny'n cadw'r wyau'n gynnes.



**Campau'r morgrug**

Gweithwyr yw'r rhan fwyaf o'r morgrug yn y nyth; dyma'r rhai heb adenydd, plant benyw diffrwyth breninesau'r morgrug (benyw ffrwythlon). Mae'r morgrug gwryw'n ymddangos am gyfnod byr yn yr haf pan fyddant hwy ar morgrug benyw ffrwythlon yn paru. Ar ôl paru, mae'r breninesau newydd yn bwrw'u hadenydd ac efallai'n mynd i ffwrdd i ddechrau eu cymunedau eu hunain, ond mae'r morgrug gwryw'n marw.

# Mân-lysfwytawyr...

Mae pob bywyd ar y ddaear yn dibynnu ar ynni o olau'r haul. Mae planhigion yn 'dal' ynni goleuni'r haul ac yn ei droi'n siwgrau; mae anifeiliaid sy'n bwyta'r planhigion yn defnyddio'r siwgrau hyn i dyfu ac yna bydd anifeiliaid eraill yn eu bwyta hwy! Mae'n debyg mai trychfilod yw'r llysysyddion pwysicaf (anifeiliaid sy'n bwyta planhigion yn unig) ar y blaned. Mae llawer o'r llysysyddion di-asgwrn-cefn yn arbenigol iawn, yn bwyta un planhigyn yn unig.




Mae chwilen ddail werdd fach fetelaidd, Gastrophysa viridula, yn arbenigo mewn dail tafol, gan adael golwg bratiog iawn ar y dail ym mis Mai a Mehefin.

Ymhlith yr arbenigwyr eraill mae Chwilod Mai (Melolontha melolontha), sy'n bwydo ar wreiddiau'n unig. Maent yn ymddangos tua diwedd y gwanwyn, ac yn aml cânt eu denu gan oleuadau gyda'r nos. Gallant fod yn ffynhonnell fwyd bwysig i anifeiliaid eraill megis yr Ystlum Trwyn Pedol Lleiaf.







Hwyrach y gwelwch chwilen arall yn aml, sef Chwilen emrallt Oedemera nobilis, efallai ar flodau wmbelifferaidd megis Moronen y maes. Dyma chwilen lachar fetelaidd tua 1cm o hyd. Mae gan y gwryw gluniau mawr iawn, ond nid ydynt yn neidio nac yn rhedeg yn gyflym, felly nid yw'n ymddangos bod iddynt swyddogaeth amlwg, ond y gred yw bod yn well gan fenywod y rhywogaeth hon wrywod â choesau tew wrth baru!




Ystyrir rhai llysysyddion di-asgwrn-cefn yn blâu; er enghraifft, nid yw'r Gwiddon Gwinwydd (Otiorhynchus sulcatus) yn ffefryn gan dyfwyr ffiwsias! Yn wir, amcangyfrifir bod plâu trychfilod yn bwyta tua chwarter yr holl gnydau bwyd a dyfir ar y ddaear.

# Gwaredu Gwastraff...

Mae moch coed (neu bryfed lludw) yn bwydo nid yn unig ar ddeunydd planhigion marw ond hefyd ar weddillion anifeiliaid, ffwng a dom, gan gynnwys eu gwastraff eu hunain (er mwyn peidio â gwastraffu maetholynnau).


Moch Coed




**Moch Coed - y Ffeithiau**

*Anifeiliaid rhyfedd iawn yw moch coed. Cramenogion ydynt sy'n perthyn i grancod a chimychiaid ac mae'n well ganddynt fannau llaith. Mae'r 38 rhywogaeth ym Mhrydain yn debyg iawn i'w gilydd, gyda'u cyrff fflat a saith pâr o goesau cerdded, ond nid yw pob un yn gallu rholio'n bêl*


Chwilen y Bwm

Mae gwaredu gwastraff hefyd yn golygu cael gwared ar dom anifeiliaid; heb Chwilod y Dom, er enghraifft, hwyrach y byddem hyd at ein canol yn y stwff! Chwilen y Bwm (Geotrupes spiniger a'i pherthnasau) yw'r mwyaf o Chwilod y Dom ym Mhrydain; maent yn cloddio gwâl dan gacennau tom ac yn eu paratoi ar gyfer eu larfâu. Mae larfâu Chwilod y Dom llai, megis Aphodius, yn aros yn y dom nes iddynt dyfu i'w llawn dwf.


Prif Lleidr Cacynaidd

Nid yw'r holl drychfilod sy'n cael eu denu i'r dom yn bwydo arno. Caiff y Pryf Lleidr Cacynaidd (Asilus crabroniformis) ei ddenu i dom sydd newydd ei ollwng, yn arbennig dom ceffyl, i ddodwy ei wyau. Mae'r epil yn ysglyfio larfâu Chwilen y Dom. Mae'r pryf yma'n drawiadol iawn, ac yn gynyddol brin. Ceir poblogaeth sylweddol ar ochr orllewinol Cors Crymlyn, a gwelir unigolion hefyd weithiau yn ardal Llandarcy.

# Infertebrataur dŵr...

Mae gwlyptiroedd yn diflannu'n gyflym ledled Prydain, lle mae tir wedi'i ddraenio ar gyfer datblygiadau neu amaethyddiaeth ac oherwydd prosesau naturiol.  Yng Nghastell-nedd Port Talbot, rydym yn ffodus iawn bod gennym wlyptiroedd o bwysigrwydd byd-eang megis Cors Crymlyn a Ffen Pant-y- Sais, sy'n cael eu gwarchod o dan y gyfraith.




Yn 2003, gwnaed darganfyddiad rhyfeddol yng Nghastell-nedd Port Talbot.  Daethpwyd o hyd i boblogaeth o Gorynod Rafft y Gors (Dolomedes plantarius) ar lannau Camlas Tennant ym Mhant-y-Sais ger Pentre Caseg (Jersey Marine).  Mae'r corryn yma'n brin iawn ac fe'i gwelir mewn dau fan arall yn unig yn y DU.  Daethpwyd o hyd i'r corryn hwn wedyn yn uwch i fyny'r gamlas ac yng Nghors Crymlyn.  Mae'r corryn mawr hwn yn eistedd ar we fach ger wyneb y dˆwr, yn aros am drychfilod, penbyliaid a hyd yn oed pysgod bach i'w dal fel bwyd.  Mae'r fenyw'n gofalu am y corynnod bach drwy warchod gwe feithrin arbennig ac yn caniatáu iddynt fwydo rhwng ei choesau blaen.  Mae'r fenyw'n goddef y rhai bach am gyfnod, ond yn fuan iawn mae'n rhaid iddynt ymorol drostynt eu hunain, neu gallent ddod i'w diwedd yn ginio iddi!




Mae wyneb y gamlas hefyd yn fan hela i'r chwyrligwgan (Gyrinus), y gellir ei gweld yn aml yn troelli o gwmpas ar ddiwrnod heulog.  Mae gan yr anifail bach hwn, ar ffurf cwch, goesau hir i gydio yn ei brae a choesau canol ac ôl ar ffurf rhodl (padl) er mwyn symud yn gyflym drwy'r dŵr.  O'i gymharu â'i faint, mae'n gyflymach nag unrhyw gwch cyflym. Mae llawer o chwilod eraill yn byw yn y dŵr, yn hela am drychfilod, penbyliaid a physgod ymhlith y chwyn dŵr  a'r gwaddod ar y gwaelod.  Chwilen ddŵr gyffredin arall yw'r Chwilen Ddŵr Gron (Acilius sulcatus).



*Mae chwilod dŵr wedi esblygu o gyndeidiau tirol, ac mae angen aer amgnt i oroesi. Pan fyddant yn plymio, maent yn cymryd swigen o aer, naill ai o dan eu cloradenydd neu wedi'i dal mewn haenen o flewiach mân, sy'n rhoi golwg ariannaidd iddynt.*







Yn aml mewn gwlyptiroedd fe welwch bryfetyn mawr trwm, yn enwedig ar gloddiau'r ddraenen wen ar ddechrau'r gwanwyn. Dyma Bryfyn Sant Marc (Bibio marci), ac fe'i gelwir felly oherwydd ei fod yn ymddangos mewn pryd i Ddiwrnod Sant Marc, 25 Ebrill.







Ar lannau pyllau dŵr a chamlesi ceir rhywogaethau arbennig sy'n hoff o ddŵr megis gweision y neidr a mursennod, sy'n gallu cyflawni campau hedfan anhygoel i ddal trychfilod hedegog eraill. Mae gennym tua 20 rhywogaeth o was y neidr, sy'n byw mewn pyllau dŵr ac o'u cwmpas yn ardaloedd ucheldir, afonydd, ffeniau, corsydd a chamlesi Castell-nedd Port Talbot. Mae'r fursen ddeniadol Coenagrion Amrywiol (Coenagrion pulchellum) yn gyffredin ym Mhant-y-Sais, ac mae'r Gwas y Neidr Tramor (Aeshna mixta) yn aml yn ymweld â phyllau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

# Mynychwyr y Traeth...

Mae twyni tywod hwythau a thraethau yn lleoedd gwych i'w mwynhau yn yr haf, ac mae ganddynt eu ffawna arbennig hefyd.







Mae Chwilen Ddeintiol y Twyni (Aegialia arenaria) yn gyffredin yn ein twyni, lle mae'n bwydo ar weddillion planhigion a gwymon sy'n pydru.

Mae chwilen ddaear fach ag iddi enw hir, Dicheirothrichus gustavi, yn hela am greaduriaid bach ar y tywod ac o dan wymon; mae ei chorff melyn a du yn guddliw perffaith ar gefndir y tywod.







Mae gwiddon bach tew arall, Philopedon plagiatum, yr un mor anodd i'w weld, tra bod chwilod eraill, megis Phylan gibbus naill ai'n dod allan yn y nos neu'n claddu eu hunain yn y tywod, gan symud drwyddo â symudiad tebyg i nofio.

# Infertebratau yn nes adref...

Mae gerddi'n darparu cynefinoedd a ffynonellau bwyd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt ac maent hefyd yn rhoi cyfle i ni oedi a gwylio bywyd gwyllt yn hamddenol; yr hyn a welwn yn gyffredin yw gwenyn a thrychfilod eraill yn ymweld â blodau, a phryfed hofran yn dynwared gwenyn, neu gorynnod, megis y Coryn Coronnog (Araneus diadematus), yn gwau eu gweodd mawr i ddal pryfed.







Daw llawer o rywogaethau'r coetir a'r glaswelltir i'n gerddi os yw'r amodau'n addas.  Mae gadael ychydig o'r glaswellt heb ei dorri am gyfnod yn annog sioncyn y gwair/ceiliog y rhedyn i ymweld neu aros.




Mae'n hawdd gwneud gerddi'n fwy croesawgar i fywyd gwyllt, a hefyd yn fannau mwy diddorol a phleserus.

Mae llawer o bobl yn bwydo adar, felly beth am helpu i fwydo trychfilod?

Mae gwenyn, yn arbennig, yn defnyddio llawer o egni yn hedfan o flodyn i flodyn ac felly mae angen llawer o neithdar dros ben arnynt i fwydo'u hepil.  Mae 23 rhywogaeth o wenyn ym Mhrydain, ac mae 15 o'r rhain wedi'u cofnodi yng Nghastell-nedd Port Talbot.  Mae gwenyn dan fygythiad cynyddol ym Mhrydain, megis y Gardwenynen groch (Bombus sylvarum), sydd wedi'i chofnodi ger Margam.



Pan fyddwch yn yr ardd y tro nesaf, ceisiwch feddwl sut gallech helpu gwenyn a thrychfilod eraill i oroesi drwy dyfu planhigion sy'n cynhyrchu llawer o neithdar a bwyd arall, megis grugiau, lafant, teim, llygad y dydd a chelyn.



Gallech hefyd ddarparu safleoedd nythu i drychfilod. Mae gwenyn unig yn aml yn nythu mewn twneli bach a byddant yn nythu'n hwylus mewn bambŵ cau neu diwbiau arbennig sy'n cael eu gwerthu gan rai cwmnïau. Mae deiliach neu bentwr o bren marw hefyd yn gallu rhoi cysgod, a byddai pwll yn yr ardd yn denu amrywiaeth mawr o drychfilod i fridio.





Peidiwch â phrysuro gormod chwaith i glirio'r holl flodau gwyllt – sydd yn chwyn i ni, ond i lawer o drychfilod, gallent olygu pryd o fwyd neu gartref.

# Beth yw hwn? Cymorth i Adnabod

## Digoesau

**Mwydod** segmennol (Annelida)
**Llyngyr** ansegmennol (Nematoda)



**Gwlithod a Malwod** (Mollusca)

## Coesog



**Moch Coed**
(Isopoda)



Fflat
2 goes i bob segment
**Neidr Gantroed**

Crwn
4 coes i bob segment
**Neidr Filroed**

## 8 Coes

**Corynnod**
(Araneae)
corff - 2 ran



**Teilwyr**
(Opiliones)
corff - 1 rhan



## 6 Choes (Trychfilod)

**2 adain**
Cler, gwybed man
(Diptera)



**4 adain**
Gwas y neidr
(Odonata)




**Chilwilod duon mawr**
(Blattodea)



**Ieir Bach yr Haf a Gwyfynnod**
(Lepidoptera) Adenydd gyda chennau lliw



**Gwenyn, morgrug, gwenyn meirch, pryfed**
(Hymenoptera)
Yn aml a gwasg unigryw



## Diadain

**Morgrug**
(Formicidae, Hymenoptera)




**Collembola**



**Chwain** (Siphonaptera)



**Gwybed Mai**
(Ephemeroptera)




**Sioncyn y Gwair, Pryfed tan**
(crics) (Orthoptera)



**Pryfed clustiau**
(Dermaptera)





**Pryfed tarian**
(Hemiptera)
Rhannau'r geg yn gwanu, sugno

**Chwilod** (Coleoptera)
cloradenydd yn cyffwrdd yn y canol



*Gobeithio bod y llyfryn hwn wedi'ch ysbrydoli i chwilio am rai o'r infertebratau sydd i'w gweld yn ein Sir a'r tu hwnt.*

*Os yw hyn wedi ennyn eich diddordeb a'ch bod am wybod mwy, mae sawl dewis ar gael:*

1. Os ydych am wybod mwy am drychfilod neu grwpiau  inferteb ratau eraill,  gallech ymuno â chymdeithas o bobl â diddordeb megis:
**Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru**
**www.wildlifetrust.org.uk/wtsww/**   Ffôn: 01656 724100
**Amateur Entomological Society** (lle ceir cysylltiadau â sawl grŵp arbenigol, megis Fforwm y Dipterwyr, a Grŵp y Coleopterwyr)
**www.projects.ex.ac.uk/bugclub/aes.html**
**Cadwraeth Ieir Bach yr Haf** **www.butterfly-conservation.org**  Ffôn: 0870 7706153
**Buglife** **http://www.buglife.org.uk/**  Ffôn: 01733 201210

2. Beth am fod yn wirfoddolwr cadwraeth? Mae sawl grŵp lleol sy'n awyddus  i wella'r amgylchedd ar gyfer infertebratau a bywyd gwyllt yn gyffredinol.  Os hoffech gael mwy o wybodaeth cysylltwch â CBS Castell-nedd Port  Talbot ar 01639 763333.

3. Os hoffech ddarllen mwy am drychfilod, mae digon o lyfrau, cylchgronau a gwefannau da iawn - ewch i'ch llyfrgell leol

4. Os hoffech ddenu trychfilod i'ch gardd, beth am ofyn am daflen 'Mynd yn  wyllt yn eich gardd' gan CBS Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763333

**Grŵp o sefydliadau, arbenigwyr bywyd gwyllt a grwpiau gwirfoddol yw Fforwm Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot ac maent  yn gweithio i warchod y planhigion a'r anifeiliaid arbennig yn ein sir.  Mae eu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd lleol.  Maent yn trefnu teithiau cerdded, sgyrsiau a grwpiau gwaith gwirfoddol yn lleol.**

**Awdur:** Steve Bolchover
**Hawlfraint pob llun -** Steve Bolchover ac eithrio'r canlynol:
**Pryf Lleidr Cacynaidd -** Hawlfraint David Painter
**Chwilen Deigr Werdd -** Hawlfraint David Painter
**Chwilen Deigr y Twyni -** Hawlfraint David Painter
**Buwch Goch Gota Fraith -** Hawlfraint Buglife/Ben Hamers
**Ffotograffau Gardd -** Hawlfraint CBS CNPT
**Cartwnau Buwch Goch Gota -** Hawlfraint Martin Bolchover

Dyluniwyd ac argreaffwyd gan Print & Graphics CBSCNPT 01639 620124